

B7. Darparu arweinyddiaeth ar gyfer eich sefydliad

Crynodeb o'r Uned

Beth yw cwmpas yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â rhoi cyfeiriad i bobl yn y sefydliad a'u galluogi, eu hysbrydoli, eu cymell a'u cefnogi i gyflawni'r hyn mae'r sefydliad yn bwriadu ei wneud.

Disgwylir y byddwch yn ymwybodol o wahanol arddulliau o arwain sy'n briodol ar gyfer gwahanol bobl a gwahanol sefyllfaoedd, ac yn gallu defnyddio'r rhain.

At ddibenion yr uned hon, gall 'sefydliad' olygu endid hunangynhwysol fel cwmni sector preifat, elusen neu awdurdod lleol **neu** uned weithredu sylweddol ei maint, sydd ag ymreolaeth sylweddol, o fewn sefydliad mwy.

Ar gyfer pwy mae'r uned?

Argymhellir yr uned ar gyfer uwch reolwyr.

Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae yna gysylltiad rhwng yr uned hon ac uned **B3. Datblygu cynllun busnes strategol ar gyfer eich sefydliad**, **B4. Rhoi'r cynllun busnes stratego ar waith** a **B6. Darparu arweinyddiaeth ym maes eich cyfrifoldeb** yng nghyfres gyffredinol y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer rheolaeth ac arweinyddiaeth.

Sgiliau

Isod rhestrir y prif 'sgiliau' generig y mae angen eu defnyddio wrth ddarparu arweinyddiaeth ar gyfer eich sefydliad. Mae cynnwys manwl yr uned yn nodi'n benodol/yn awgrymu'r sgiliau hyn, ac maent wedi'u rhestru yma fel gwybodaeth ychwanegol.

- Meddwl yn strategol
- Grymuso
- Cyfathrebu
- Dylanwadu a pherswadio
- Arwain trwy esiampl
- Cynllunio
- Ysbrydoli
- Cymell
- Datrys problemau
- Gwerthfawrogi a chefnogi pobl eraill
- Monitro
- Ymgynghori
- Sicrhau adborth
- Dilyn
- Rheoli gwrthdaro

B7. Darparu arweinyddiaeth ar gyfer eich sefydliad

Canlyniadau perfformiad effeithiol

Mae'n rhaid i chi allu gwneud y pethau canlynol:

1. Datblygu ac atgyfnerthu pwrpas, gwerthoedd a gweledigaeth y sefydliad a'u cyfleu yn eglur ac yn frwdfrydig i bobl yn y sefydliad drwyddo draw a, lle bo hynny'n briodol, i fudd-ddeiliaid allanol.
2. Sicrhau bod y cynlluniau cyfundrefnol yn cefnogi pwrpas, gwerthoedd a gweledigaeth y sefydliad.
3. Llywio'r sefydliad yn llwyddiannus trwy anawsterau a heriau, gan gynnwys gwrthdaro o fewn y sefydliad.
4. Creu a chynnal diwylliant yn y sefydliad sy'n annog ac yn gwobrwyo creadigrwydd ac arloesedd.
5. Datblygu, dethol a defnyddio arddulliau arwain sy'n briodol i'r gwahanol bobl a'r gwahanol sefyllfaoedd rydych yn eu hwynebu.
6. Cymell pobl yn y sefydliad drwyddo draw i gyflawni eu hamcanion a'u gwobrwyo pan fyddant yn llwyddo.
7. Rhoi cefnogaeth a chynghor i bobl yn y sefydliad drwyddo draw pan fydd eu hangen arnynt, yn enwedig yn ystod cyfnodau o rwystrau a newid.
8. Cymell pobl yn y sefydliad drwyddo draw i gyflwyno'u syniadau eu hunain, a gwrandao ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud.
9. Grymuso pobl yn y sefydliad drwyddo draw i ddatblygu eu ffyrdd eu hunain o weithio o fewn ffiniau cytunedig.
10. Annog pobl yn y sefydliad drwyddo draw i arwain pan fydd ganddynt y wybodaeth a'r arbenigedd, a dangos parodrwydd i ddilyn yr arweiniad hwn.
11. Trwy'ch perfformiad fel arweinydd, ennill ymddiriedaeth a chefnogaeth pobl yn y sefydliad drwyddo draw a budd-ddeiliaid allweddol i'ch arweinyddiaeth o'r sefydliad, a sicrhau adborth rheolaidd ar eich perfformiad.
12. Monitro gweithgareddau a chynnydd mewn gwahanol feysydd o'r sefydliad heb ymyrryd.

Ymddygiad wrth wraidd perfformiad effeithiol

1. Byddwch yn cyfleu gweledigaeth sy'n cynhyrchu cyffro, brwdfrydedd ac ymrwymiad.
2. Byddwch yn creu ymdeimlad o bwrpas cyffredin.
3. Byddwch yn cymryd cyfrifoldeb personol am wneud i bethau ddigwydd.

4. Byddwch yn cyflwyno gwybodaeth yn eglur, yn gryno, yn fanwl-gywir ac mewn dulliau sy'n hybu dealltwriaeth.
5. Byddwch yn annog ac yn cefnogi pobl eraill i wneud eu penderfyniadau eu hunain.
6. Byddwch yn gweithredu o fewn terfynau'ch awdurdod.
7. Byddwch yn sicrhau bod amser ar gael i gefnogi eraill.
8. Byddwch yn onest, yn deg ac yn gyson wrth wneud penderfyniadau.
9. Byddwch yn ceisio deall anghenion a chymelliannau pobl.
10. Byddwch yn ymddwyn mewn ffordd sy'n dangos parch, cymwynasgarwch a chydweithrediad.
11. Byddwch yn gwneud pethau cymhleth yn syml er budd pobl eraill.

B7. Darparu arweinyddiaeth ar gyfer eich sefydliad

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall y pethau canlynol:

Gwybodaeth gyffredinol a dealltwriaeth

1. Y gwahaniaethau rhwng rheolaeth ac arweinyddiaeth
2. Sut i ddatblygu gweledigaeth gymhellol ar gyfer sefydliad
3. Pwysigrwydd gwerthoedd cyfundrefnol, a beth maent yn ei olygu
4. Ffyrdd o sicrhau bod y cynlluniau cyfundrefnol yn cefnogi pwrpas, gwerthoedd a gweledigaeth y sefydliad.
5. Sut i ddethol gwahanol ddulliau a thechnegau i gyfathrebu â phobl eraill yn y sefydliad drwyddo draw, a sut i ddefnyddio'r rhain yn llwyddiannus
6. Mathau o heriau ac anawsterau a allai godi, gan gynnwys gwrthdaro o fewn y sefydliad, a ffyrdd o'u nodi a'u goresgyn
7. Gwahanol theorïau, modelau ac arddulliau arwain a sut i ddethol y rhain a'u defnyddio yn llwyddiannus gyda gwahanol bobl ac mewn gwahanol sefyllfaoedd
8. Yr effaith y gall gwahanol arddulliau arwain ei chael ar sefydliadau
9. Sut i ddethol gwahanol ddulliau a thechnegau o gymell, gwobrwyo a pherswadio pobl a dylanwadu arnynt
10. Sut i rymuso pobl yn effeithiol
11. Sut i gael adborth ar berfformiad eich arweinyddiaeth a sut i'w ddefnyddio yn effeithiol
12. Manteision cyfundrefnol creu diwylliant sy'n annog ac yn cydnabod creadigrwydd ac arloesedd, a sut i wneud hynny
13. Sut i adnabod a datblygu gallu pobl eraill i arwain, a dilyn eu harweiniad

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i ddiwydiant/sector

1. Arddulliau arwain sy'n gyffredin yn y diwydiant/sector a'u cryfderau a'u cyfyngiadau
2. Gofynion cyfreithiol, rheoliadol a moesegol yn y diwydiant/sector

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i'r cyd-destun

1. Eich gwerthoedd, eich cymelliannau a'ch emosiynau eich hun, ac effaith y rhain ar eich gweithredoedd eich hun ac ar bobl eraill
2. Eich cryfderau a'ch cyfyngiadau eich hun yn y rôl arwain. Cryfderau, cyfyngiadau a photensial pobl rydych yn eu harwain
3. Eich rôl, eich cyfrifoldebau a lefel eich grym eich hun

4. Pwrpas, gwerthoedd a gweledigaeth ar gyfer eich sefydliad
5. Diwylliant a gallu eich sefydliad i arwain
6. Cynlluniau eich sefydliad
7. Y mathau o gefnogaeth a chynghor y mae'n debygol y bydd eu hangen ar bobl a sut i ymateb i'r rhain
8. Budd-ddeiliaid allanol y bydd angen i chi gyfathrebu a gweithio gyda nhw o bosibl